Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Siarter Wybodaeth Estyn

Hydref 2009

Iechyd ar Waith
CYRRAEDD Y NOD
THE CORPORATE STANDARD
Health at Work

SAFON AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD
GREEN DRAGON ENVIRONMENTAL STANDARD

INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymuned;
- ALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith/rhaglenni hyfforddi a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

‰ **Hawlfraint y Goron 2009: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.**

Siarter Wybodaeth Estyn

Cyflwyniad

Mae'r Siarter Wybodaeth hon yn nodi'r safonau y gallwch eu disgwyl gan Estyn pan fyddwn yn casglu ac yn cadw gwybodaeth bersonol a gwybodaeth amhersonol amdanoch. Bydd yn dweud wrthych sut y gofalwn am y wybodaeth honno, sut y gallwch chi gael mynediad at wybodaeth, gan gynnwys eich data personol, a beth i wneud os oes gennych gŵyn neu ymholiad. Darparwn fanylion hefyd sy'n dweud sut y gallwch gysylltu â ni neu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i gael mwy o wybodaeth.

Byddwn yn adolygu'r Siarter Wybodaeth hon yn rheolaidd, a byddwn yn rhoi unrhyw ddiweddariadau ar y dudalen we hon. Diweddarwyd y Siarter Wwybodaeth hon ddiwethaf ar 9 Hydref 2009.

Rolau a chyfrifoldebau

Gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi, fel Swyddog Cyfrifo Estyn, y mae'r atebolrwydd a'r cyfrifoldeb cyffredinol am Lywodraethu Gwybodaeth yn Estyn, ac ef sy'n gyfrifol yn y pen draw am benderfynu ar y polisïau sy'n gymwys i wybodaeth a gedwir gan Estyn. Mae'r Swyddog Cyfrifo yn rhoi sicrwydd, trwy'r Datganiad o Reolaeth Fewnol, fod yr holl risgiau i Estyn, gan gynnwys y rheiny'n ymwneud â gwybodaeth, yn cael eu rheoli a'u lliniaru'n effeithiol.

Yr Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth sy'n berchen ar y siarter hon ar ran Bwrdd Estyn a'r Swyddog Cyfrifo, ac mae'n gyfrifol am ei gweithredu. Bydd yr Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth yn goruchwylio datblygu, gweithredu ac adolygu polisïau sy'n gymwys i wybodaeth a gedwir gan Estyn, gan gynnwys Polisi Risg Gwybodaeth a'r broses asesu risg ar gyfer risg gwybodaeth, o fewn Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth Estyn. Mae'r Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth yn eiriolwr risg gwybodaeth ar y Bwrdd ac mewn trafodaethau mewnol, a bydd yn rhoi cyngor ysgrifenedig i'r Swyddog Cyfrifo ar gynnwys y Datganiad blynyddol o Reolaeth Fewnol mewn perthynas â risg gwybodaeth. Caiff yr Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth ei gynorthwyo gan nifer o staff, gan gynnwys y Swyddog Gwybodaeth sy'n gyfrifol am weinyddu ceisiadau am wybodaeth, a'r Swyddog Diogelwch Technoleg Gwybodaeth.

Mae Perchnogion Asedau Gwybodaeth yn gyfrifol am y wybodaeth a gedwir ar ffeiliau unigol, gan gynnwys awdurdodi dinistrio'r wybodaeth honno.

Mae Penaethiaid Cyfarwyddiaeth/Cyfarwyddwyr Strategol yn gyfrifol am sicrhau bod gwybodaeth sy'n cael ei chadw yn eu meysydd cyfrifoldeb yn cydymffurfio'n llawn â'r polisïau a'r gweithdrefnau a bennwyd gan y Prif Arolygydd, gan gynnwys gwybodaeth a brosesir gan gontractwyr, partneriaid neu gyrff eraill sy'n gweithio dan gytundeb lefel gwasanaeth.

Mae rheolwyr yn gyfrifol am sicrhau bod staff dan eu cyfarwyddyd a'u rheolaeth yn ymwybodol o'r polisïau, y gweithdrefnau a'r arweiniad sydd wedi'u pennu gan y Prif

Arolygydd ac am wirio bod yr aelodau staff hynny'n deall ac yn cymhwyso polisïau, gweithdrefnau ac arweiniad yn briodol wrth gyflawni'u gwaith o ddydd i ddydd.

Mae pob aelod o staff yn gyfrifol am brosesu gwybodaeth yn unol â'r polisïau, y gweithdrefnau a'r arweiniad sydd wedi'u pennu gan y Prif Arolygydd.

Mathau o wybodaeth

Er mwyn darparu ein gwasanaeth arolygu a chynghori, ac i gyflawni ein swyddogaethau cymorth cysylltiedig, fel adnoddau dynol a chyllid, mae Estyn yn cadw gwybodaeth bersonol a gwybodaeth amhersonol mewn amrywiaeth o gronfeydd data, systemau a storfeydd gwybodaeth.

Sut y caiff ein gwybodaeth ei rheoli

Mae Estyn yn cynnal ac yn diogelu gwybodaeth yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Estyn, yn unol â deddfwriaeth ac arfer orau. Mae gennym fesurau diogelwch ar waith i gynnal a diogelu cyfrinachedd, cywirdeb ac argaeledd ein system a'n gwybodaeth.

Gwybodaeth bersonol

Mae data personol yn golygu data sy'n ymwneud ag unigolyn byw y gellir ei adnabod o'r:

- data; neu'r
- data a gwybodaeth arall sydd ym meddiant, neu sy'n debygol o ddod i feddiant rheolwr y data (Estyn).

Mae data personol yn cynnwys unrhyw fynegiant barn am yr unigolyn ac unrhyw arwydd o fwriadau rheolwr y data (Estyn) neu unrhyw un arall mewn perthynas â'r unigolyn. Mae Deddf Diogelu Data 1998 yn rheoleiddio rheoli gwybodaeth bersonol.

Os gofynnwn i unigolion am wybodaeth bersonol, byddwn:

- yn dweud wrthynt pam mae angen y wybodaeth arnom, pan na fydd hynny'n amlwg;
- yn gofyn am yr hyn sydd ei angen arnom yn unig, a pheidio â chasglu gormod o wybodaeth neu wybodaeth amherthnasol;
- yn gwneud yn siŵr nad oes neb na ddylai yn cael mynediad at y wybodaeth;
- yn rhoi gwybod i unigolion os ydym yn rhannu'r wybodaeth gyda sefydliadau eraill; ac
- yn cadw'r wybodaeth am y cyfnod y mae ei hangen arnom yn unol â'n hatodlen cadw cofnodion.

Yn gyfnewid, i sicrhau bod gwybodaeth yn ddibynadwy ac yn gyfredol, gofynnwn i unigolion:

- roi gwybodaeth gywir i ni; a

- dweud wrthym cyn gynted ag y bo modd am unrhyw newidiadau, fel newid cyfeiriad.

Mynediad at wybodaeth bersonol

Mae Estyn yn ceisio bod mor agored â phosibl o ran rhoi mynediad i bobl at eu gwybodaeth bersonol. Yn amodol ar eithriadau penodol, mae gennych hawl i gael gwybod os ydym yn cadw unrhyw ddata personol amdanoch, a hawl i gael copi o'r wybodaeth honno. Os penderfynwch eich bod eisiau copi o'r wybodaeth honno, mae'n rhaid i ni roi disgrifiad i chi o'r data, gan gynnwys esboniad o unrhyw dermau annealladwy, dweud wrthych o le cawsom y data, rhoi esboniad i chi am unrhyw benderfyniadau awtomataidd yr ydym wedi'u gwneud gan ddefnyddio'r data, dweud wrthych at ba ddibenion y proseswn y data, a dweud wrthych a ydym wedi datgelu'r data hwn i barti arall.

Gallwch ganfod a ydym yn cadw unrhyw wybodaeth bersonol amdanoch trwy wneud 'cais gwrthrych am wybodaeth' o dan Deddf Diogelu Data 1998.

I wneud cais i Estyn am unrhyw wybodaeth bersonol y gallwn fod yn ei chadw, mae angen i chi gysylltu â'n Swyddog Gwybodaeth, gan ddefnyddio'r manylion cysylltu a roddir isod. Rhaid i geisiadau am wybodaeth gael eu gwneud trwy lenwi ffurflen cais gwrthrych am wybodaeth, a rhaid anfon ffi o £10 gyda'r ffurflen, yn daladwy i Estyn. Mae Polisi Diogelu Data Estyn a'r ffurflen cais gwrthrych am wybodaeth http://www.estyn.gov.uk/about_estyn/cy_Data_Protection_Policy_2007.pdf yn rhoi mwy o wybodaeth.

Lle bo modd, ac os cytunwch chi, byddwn yn ceisio delio â'ch cais yn anffurfiol, er enghraifft, trwy ddarparu'r wybodaeth benodol y mae ei hangen arnoch dros y ffôn.

Os ydym yn cadw gwybodaeth amdanoch, gallwch ofyn i ni newid, diweddaru neu gywiro'ch manylion, a hynny, eto, drwy gysylltu â'r Swyddog Gwybodaeth.

Mynediad at wybodaeth

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn caniatáu i chi gael mynediad at wybodaeth wedi'i chofnodi a gedwir gan awdurdodau cyhoeddus fe Estyn. Mae gan Estyn gynllun cyhoeddi http://www.estyn.gov.uk/about_estyn/cy_estyns_publication_scheme_december_2008.pdfsy'n rhoi trosolwg o'r wybodaeth sydd ar gael i gael mynediad ati.

Er bod y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn creu hawl i ofyn am wybodaeth benodol a gedwir gan gyrff cyhoeddus mae hefyd yn creu nifer o eithriadau i'r hawl honno. Bwriad yr eithriadau yw diogelu gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth arall lle gallai ei datgelu niweidio buddiannau'r Wladwriaeth neu drydydd parti. Mae enghreifftiau'n cynnwys gwybodaeth sy'n fasnachol sensitif, yn gyfrinachol, dan reolaeth deddfwriaeth arall neu sydd ar gael yn hawdd trwy fodd arall. Mae'r eithriadau hyn yn caniatau awdurdodau cyhoeddus i atal rhywfaint o'r wybodaeth neu'r wybodaeth gyfan y gofynnir amdani. Os penderfynwn beidio â datgelu rhywfaint o'r wybodaeth neu'r wybodaeth gyfan y gofynnoch amdani, rhown wybod i chi pa eithriadau sydd

wedi bod yn gymwys a pham. Mae Polisi Rhyddid Gwybodaeth Estyn http://www.estyn.gov.uk/about_estyn/cy_FoIAct.pdf yn rhoi mwy o wybodaeth.

Dylid gwneud cais am wybodaeth, yn ogystal ag ymholiadau ynglŷn â gwneud cais, yn ysgrifenedig (mae hyn yn cynnwys e-bost a ffacs) at sylw Swyddog Gwybodaeth Estyn. Rhoddir y manylion cysylltu isod.

Cwynion neu ymholiadau

Mae Estyn yn ceisio cyrraedd y safonau uchaf wrth gasglu a defnyddio gwybodaeth bersonol. Am y rheswm hwn, cymerwn unrhyw gŵynion a dderbyniwn ynglŷn â hyn yn ddifrifol iawn. Os yw pobl o'r farn fod ein harfer o gasglu neu ddefnyddio gwybodaeth yn annheg, yn gamarweiniol neu'n amhriodol, anogwn hwy i ddod â hyn i'n sylw. Byddem hefyd yn croesawu unrhyw awgrymiadau er mwyn ein helpu i wella'n gweithdrefnau.

I gael mwy o wybodaeth, cyfeiriwch at weithdrefn adborth a chwynion Estyn http://www.estyn.gov.uk/about_estyn/cy_Final_Feedback_and_Complaints_Leaflet_V7_February_2009.pdf.

Sut i gysylltu â ni

Gellir e-bostio ceisiadau am wybodaeth am ein siarter wybodaeth at y Swyddog Gwybodaeth yn ymholiadau@estyn.gsi.gov.uk neu drwy ysgrifennu at:

Swyddog Gwybodaeth
Estyn,
Llys Angor,
Heol Keen,
Caerdydd.
CF24 5JW

Ffôn: 02920 446 446
Ffacs: 02920 446 448

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Pan ofynnwn i chi am wybodaeth, byddwn yn cydymffurfio â'r gyfraith, gan gynnwys Deddf Diogelu Data 1998. I gael cyngor annibynnol ynglŷn â materion mynediad i wybodaeth a diogelu data, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 02920 448 044
Ffacs: 02920 448 045
E-bost: wales@ico.gsi.gov.uk